



## **ADDUNED AMRYWIAETH CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cydnabod bod amrywiaeth o fewn Llywodraeth Leol yn ymwneud â chreu amgylchedd cynhwysol, derbyn gwahaniaethau pob unigolyn, galluogi pob Cynghorydd i gyflawni ei lawn botensial ac, o ganlyniad i hynny, caniatáu i wasanaethau'r Cyngor helpu ein trigolion yn y modd gorau posibl. Mae'r Cyngor felly yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol.

### **Rydym yn cytuno i wneud y canlynol**

- Darparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth drwy'r gwaith, polisiau a'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.
- Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hyrwyddo ymddygiad o'r safon uchaf fel yr adlewyrchir ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr Aelodau
- Parhau i gefnogi rôl 'Hyrwyddwr Materion Cydraddoldeb yr Aelodau' yn rhan o Gabinet yr Arweinydd.
- Sicrhau bod Cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli mewn rolau arweinyddiaeth â dylanwad mawr pan fo hynny'n bosibl.
- Llunio Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022, a fydd yn cynnwys:
  - a) Penodi Hyrwyddwr Amrywiaeth ar gyfer pob grŵp gwleidyddol sy'n rhan o'r Cyngor er mwyn iddyn nhw weithio gyda'i gilydd a chymdeithasau pleidiau lleol i'w hannog i recriwtio ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
  - b) Annog a galluogi pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sefyll mewn etholiad trwy ddarparu gweithgareddau megis rhaglenni mentora a chysgodi a chynnal achlysuron gwybodaeth a dysgu ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn sefyll fel ymgeiswyr swyddogol

- c) Ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau partner mewn modd rhagweithiol, a'u cynnwys nhw yn rhan o waith cefnogi a chynrychioli grwpiau a dangynrychiolir. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda Swyddog Datblygu'r Gymuned y Cyngor a'r garfan ehangach, i hyrwyddo rôl Cynghorydd ymhlith y 3ydd sector a grwpiau gwirfoddol yn y Fwrdeistref Sirol.
  - d) Diweddarau gwefan y Cyngor i sicrhau ei bod yn dangos gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion ynghylch taliadau a chymorth sydd ar gael i helpu unrhyw ymgeisydd sy'n sefyll mewn etholiad yn y dyfodol.
  - e) Bwrw ymlaen â gwaith i greu fideo'r Cyngor a fydd yn hyrwyddo rôl y Cynghorydd ac yn darparu gwybodaeth ynghylch y cymorth sydd ar gael i Aelodau Etholedig.
  - f) Hyrwyddo rôl Cynghorydd yn ystod Ffair Swyddi a Ffair Gyrfaedd y Cyngor.
  - g) Ymrwmo i sicrhau bod pob aelod ac ymgeisydd yn cwblhau arolwg ymgeiswyr a chynghorwyr Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddsbarthu adeg etholiad.
  - h) Gweithredu dull monitro gwell mewn perthynas â materion cydraddoldeb yr Aelodau
  - i) Gweithio gyda Hyrwyddwyr Amrywiaeth i annog pob grŵp gwleidyddol i bennu targedau uchelgeisiol ar gyfer ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystod etholiadau lleol 2022
  - j) Datblygu a hyrwyddo dulliau newydd o weithio ar gyfer aelodau, gan gynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd hybrid a llwyfannau e-ddysgu a fydd yn cynorthwyo ac yn annog pob ymgeisydd a'r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sefyll mewn etholiad.
- Parhau i weithio tuag at y safonau a nodir yn *Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau*.
  - Parhau i ddangos ymrwymiad i'r ddyletswydd gofal ar gyfer Cyngorwyr drwy:
    - a) sicrhau bod gan bob Cynghorydd fynediad i wasanaethau cwnsela trwy Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor a Gwasanaeth Lles Cari;
    - b) Hyrwyddo'r polisi drws agored cyffredinol sy'n galluogi Aelodau i gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Democraataidd a'r Swyddog Monitro am unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw
    - c) ystyried diogelwch a lles cyngorwyr pryd bynnag maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau a sicrhau bod pob Aelod yn effro i'r mesurau diogelwch sydd ar waith ar gyfer Aelodau trwy Uned Busnes y Cyngor mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel a Heddlu De Cymru;
    - d) Gweithredu dull dim goddefgarwch mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu ar y cyfryngau cymdeithasol, a chefnogi Aelodau drwy lunio ffeithluniau i ddangos yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad derbyniol a thafenni gwybodaeth i'w rhannu ag etholwyr sy'n nodi sut i gysylltu â'r Aelodau.
    - e) Darparu cyfleoedd hyfforddi a dysgu i gefnogi Aelodau wrth iddyn nhw gyflawni'u rôl.

- f) Cynnal arolwg blynyddol gyda'r Aelodau mewn perthynas â'r trefniadau cymorth sydd ar gael i alluogi'r Cyngor i adolygu a mynd i'r afael ag unrhyw welliannau y mae modd eu datblygu a rhoi rhagor o gymorth i Aelodau wrth iddyn nhw gyflawni'u rôl.

Parhau i gynnig hyblygrwydd wrth gyflawni busnes y cyngor drwy;

- Parhau ag 'Arolwg Blynyddol yr Aelodau' er mwyn adolygu amser cychwyn Cyfarfodydd y Cyngor, sy'n cael ei drafod yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.
- Parhau i hyrwyddo a chefnogi'r trefniadau cyfarfodydd hybrid y mae'r Cyngor yn eu datblygu er mwyn rhoi hyblygrwydd i Aelodau a Swyddogion fynychu cyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor neu drwy lwyfan rithwir.
- Parhau â'r trefniadau y cytunwyd arnyn nhw mewn perthynas â darparu cyfnodau o seibiant yn ystod gwyliau ysgol i gefnogi Cyngorwyr sydd ag ymrwymadau gofal neu waith.
- Hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i bob Aelod yn ystod cyfarfodydd y Cyngor
- Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran cyfarpar a chymorth TGCh i alluogi'r Aelod i gyflawni'i rôl mewn modd effeithlon.
  
- Annog pob aelod i fanteisio ar y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, yn enwedig unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, a hynny fel bod pob aelod yn cael tâl teg am ei waith ac i sicrhau nad yw rôl yr aelod wedi'i chyfyngu i'r rhai sy'n gallu ei fforddio.
  
- Annog Aelodau i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'w helpu ar ôl iddyn nhw ymddeol.
  
- Annog Aelodau i drafod addasiadau rhesymol i'w cynorthwyo wrth gyflawni eu rôl.
  
- Annog unigolion i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael i Aelodau mewn perthynas â lwfansau band eang a darpariaeth ffonau symudol i gynorthwyo Aelodau wrth iddyn nhw gyflawni'u rôl.

\*\*\*\*